

Credwch
mewn plant



Barnardo's
Cymru

Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Canllaw i rieni



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Beth ydy Ymddygiad Rhywiol Niweidiol?

Gellir diffinio ymddygiad rhywiol niweidiol fel: ymddygiad rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n amhriodol yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol tuag at eu hunain neu i eraill, neu fod yn sarhaus tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn. *Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan 2019* [Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol](#)

Ai'n teulu ni yw'r unig un?

Nid yw ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael ei arddangos gan blant yn gysyniad newydd nac yn anghyffredin pan fyddwn yn ystyried ffurfiau o gam-drin rhywiol. Mewn astudiaeth yn y DU, mae dau draean o gamdriniaethau cyswllt rhywiol sydd wedi'u profi gan blant, wedi cael eu harddangos gan blant eraill (Radford et al. 2011). Ar y cyfan, mae'r ffigwr hwn wedi aros yn ddigyfnewid mewn astudiaethau eraill sydd wedi'u cwblhau ers hynny. Fel mae ein dealltwriaeth o niwed ar-lein yn ehangu, ymddengys hefyd bod ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant drwy ddulliau digidol hefyd yn sylweddol, gyda mwy a mwy o adroddiadau o blant yn cael eu niweidio ar-lein. Yn ogystal â hyn, mae mwy o adroddiadau o'r plant eu hunain yn arddangos ymddygiad niweidiol tuag at eraill, yn y cyd-destun hwn.

Darganfod bod eich plentyn wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Mae darganfod bod eich plentyn neu blentyn yn eich gofal wedi arddangos ymddygiad niweidiol yn gallu teimlo'n frawychus ac yn llethol. Mae'n bwysig peidio cadw eich pryderon i chi eich hun ac i chwilio am ofal a chefnogaeth gan eich adran gwasanaethau cymdeithasol lleol. Tra bod hyn yn gallu eich rhoi dan straen ac yn beth anodd ei wneud, dyma'r unig ffordd yn y tymor hir i sicrhau'r gefnogaeth gywir i'ch plant, i eraill sy'n gysylltiedig ac i'ch teulu.

Fel rhiant neu warchodwr, efallai y byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi eich plentyn i siarad gyda gweithwyr proffesiynol mewn dull agored a gonest fel bod y gefnogaeth gywir yn cael ei chynnig. Mae'n bwysig peidio lleihau'r pryderon, er enghraifft, diystyru adroddiad gan bobl gysylltiedig eraill neu ddiystyru'r niwed maent wedi'i ddiodeff. Yn yr un modd, mae'n bwysig peidio defnyddio labeli oedolion wrth siarad am yr ymddygiad ac i gofio yn anad dim mai eich plentyn chi yw eich plentyn chi ac y byddwch yn chwarae rhan bwysig wrth ei helpu ac wrth helpu eraill i ddeall yr ymddygiad rhywiol niweidiol sydd wedi ei arddangos. Gallai helpu eich plentyn i deimlo bod ganddynt gefnogaeth fod yn anodd ar brydiau ac efallai y bydd gennyhych amrywiaeth o feddyliau a

theimladau am eich plentyn neu'r ymddygiad ac mae'n bosibl y bydd hyn yn anodd i chi. Bydd hi'n bwysig bod gennych hefyd fan diogel er mwyn gallu archwilio'ch teimladau a gofyn unrhyw gwestiynau posibl i'ch galluogi i wneud hynny.

Bydd cael y cymorth cywir ar yr amser iawn ar gyfer eich plentyn a'ch teulu yn lleihau'n sylweddol y siawns y byddan nhw neu eraill yn cael rhagor o niwed. Er y gallai hyn fod yn anodd, mae gofyn am gymorth proffesiynol y tro cyntaf rydych yn teimlo pryder am ymddygiad rhywiol eich plentyn yn helpu'r gweithiwr proffesiynol i ymateb yn gymesur.

Datblygiad Rhywiol Plentyn

Mae deall beth sy'n normal a'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ran datblygiad rhywiol plentyn yn ystod eu bywyd yn rhan bwysig o ddeall pam mae ymddygiad plentyn yn datblygu i fod yn amhriodol, yn broblemus neu'n gamdriniaeth. Nid yw'n anghyffredin i bobl ifanc ymchwilio i agweddau o ymddygiad rhywiol gyda'i gilydd. Ond mewn achosion lle nad oes dewis, cyd-ddibyniaeth na chydysyniad, gall yr ymddygiad fod yn niweidiol i'r ddau blentyn. Gallai ffactorau sy'n dylanwadu ar allu person i gydsynio ar sail penderfyniad cytbwys, gynnwys teimlo dan fygythiad neu gael ei orfodi i gydymffurfio â'r ymddygiad, neu wahaniaeth mewn pŵer neu statws o ganlyniad i oed, maint, rhyw, gallu neu resymau eraill.

Yn yr un modd, nid yw'n anarferol i blant iau fod yn chwilfrydig am eu

horganau cenhedlu eu hunain neu ddangos diddordeb yn rhannau corff pobl eraill. Fodd bynnag, pan fo'r ymddygiad yn fwy aeddfed na'r disgwyl neu'n digwydd yn gyson ac nid oes modd i oedolion sy'n rhoi gofal ei ailgyfeirio, gallai fod yn arwydd bod angen gwneud ymchwil pellach i swyddogaeth yr ymddygiad ar ran y plentyn.

Mae'n rhaid i ymddygiad rhywioledig sy'n cael ei arddangos gan blant iau gael ei ystyried yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei arddangos gan blant yn eu harddegau neu oedolion. Mae'n annhebygol iawn eu bod yn cael eu hysgogi'n rhywiol ac efallai mai ymdrech sydd yma i ddangos gofid neu efallai mai dynwarediad posibl o ymddygiad mae'r plentyn wedi ei brofi neu ei weld ei hun ydyw. Bydd siarad gyda gweithiwr proffesiynol am unrhyw bryderon posibl sydd gennych yn bwysig er mwyn sicrhau bod eich plant yn derbyn cefnogaeth dan yr amgylchiadau hyn.

Ymatebion cymesur i ymddygiad rhywiol niweidiol

Mae'n gallu bod yn anodd i rieni a gweithwyr proffesiynol ddeall beth sy'n iach a deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig o blant o ran ymddygiad rhywiol. Mae nifer o declynnau ar gael sy'n ein helpu ni i ystyried pa ymddygiad sy'n iach a disgwyliedig o blant neu sy'n niweidiol ac yn gamdriniol iddynt eu hunain ac eraill. Gall y rhain gefnogi ein dealltwriaeth a'n hymatebion.

Mae'r rhai sy'n cael eu defnyddio'n gyson gan weithwyr proffesiynol yn cynnwys 'Goleuadau Traffig Brook' a Chontinwmm Ymddygiad Rhywiol

Hackett. [Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol](#)

Mae'r adnoddau hyn yn help i ddiffinio ymddygiadau iach ac ymddygiadau sy'n ddisgwylidig o ran oed y plentyn, yn ogystal â'r rhai sy'n niweidiol i'r plentyn ei hun neu i eraill.

Mae'r adnoddau hyn hefyd yn helpu i arwain ein dealltwriaeth o ymatebion cymesur i'r ymddygiad er mwyn sicrhau, pan fo pryderon yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol, bod plant yng Nghymru yn derbyn ymateb gydag ymwybyddiaeth o'u datblygiad rhywiol.

Os ydych yn pryderu am unrhyw agwedd yn natblygiad neu ymddygiad rhywiol eich plentyn, mae'n bwysig chwilio am gefnogaeth ar y cyfle cyntaf. Bydd gwneud hyn yn atal y pryderon rhag cynyddu a chael effaith ar agweddau eraill o ddatblygiad eich plentyn.

Camdriniaeth Rywiol Rhwng Brodyr a Chwiorydd

Fel rhiant, mae darganfod bod eich plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol gan frawd neu chwaer yn gallu bod yn eithriadol o boenus. Efallai y byddwch yn cwestiynu sut a pham na wnaethoch sylweddoli bod hyn yn digwydd ac mae'n bosibl eich bod yn ansicr ynghylch sut y dylech chi ymateb i'r ddau neu'r holl blant sy'n ymwneud â'r sefyllfa. Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn rhai cymhleth ac mae'n debygol y byddwch angen eich man diogel eich hun a chefnogaeth i archwilio eich

teimladau a'ch ymateb emosiynol i'r sefyllfa. Bydd ar y ddau blentyn eich angen i fod yn rhan o'u hadferiad ac wrth atgyweirio eu perthynas, yn ogystal â gwneud newidiadau i'r amgylchedd er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i'r ddau blentyn neu'r holl blant sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.

Nid yw camdriniaeth rywiol rhwng brodyr a chwiorydd yn llai niweidiol i'r plentyn. A dweud y gwir, efallai bod camdriniaeth rhwng brodyr a chwiorydd wedi bod yn digwydd ers cyfnodau hirach o amser, wedi bod yn fwy cyson wrth natur, ac yn gadael y ddau blentyn yn teimlo lefelau uchel o euogrwydd, dryswch a chywilydd.

Mae'n bwysig adnabod yr ymddygiad fel ymddygiad camdriniol a chydabod bod gan y ddau blentyn neu'r holl blant anghenion gwahanol ac unigol. Y peth mwyaf pwysig ydy ei gwneud hi'n ddiogel ar gyfer bob plentyn ac i weithio gyda gweithwyr proffesiynol i atal pob agwedd o'r gamdriniaeth rhag parhau.

Deall y cwestiwn pam

Os ydych yn deall y cwestiwn PAM yna rydych yn debygol o dderbyn bod eich plentyn yn ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidiol i eraill. Mae chwilio am resymau yn anodd i rieni. Byddwch yn pendroni a wnaethoch chi fethu rhywbeth neu os gwnaethoch chi unrhyw beth o'i le, beth mae hyn yn golygu nawr i'ch plentyn wrth fynd ymlaen neu a yw'n debygol o ailadrodd yr ymddygiad neu beidio. Dyma gwestiynau, yn ôl rhieni, y maent yn eu cael yn anodd

eu hateb. Er ei bod hi'n bosibl y caiff y cwestiynau hyn eu hateb wrth gefnogi eich plentyn a'ch teulu, mae'n bwysig nad ydynt yn rhwystro wrth sicrhau bod eich cartref yn ddiogel ac wrth gefnogi eich plentyn i gael yr help y bydd ei angen arno.

Mae llawer o resymau pam fod plant yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Dydy hi ddim yn anarferol i'r plentyn ei hun fethu gwybod pam ei fod wedi ymddwyn yn y dull hwn. Mae'n fwy tebygol bod sawl ffactor wedi achosi i'r ymddygiad ddigwydd yn hytrach nag un sbardun sengl neu un digwyddiad. Efallai y byddai gweithwyr proffesiynol ddim ond yn gallu dweud bod rhai ffactorau penodol wedi dod at ei gilydd a dylanwadu ar ymddygiad eich plentyn. Neu, bod ymddygiad eich plentyn wedi cael ei ysgogi gan ffactorau gwahanol ar achlysuron gwahanol pan fo'ch plentyn yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae plant yn aml yn ei chael hi'n anodd siarad am eu ymddygiad a gall hyn arwain at wadu neu leihau eu pryderon. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed yn fwy pan fo rhieni hefyd yn gwadu neu'n lleihau pryderon. Er nad ydy gwadu yn ffactor sy'n gysylltiedig ag ailadrodd yr ymddygiad sy'n peri pryder, dylai cefnogi plentyn mewn dull mor agored â phosibl gyda chymorth gweithwyr proffesiynol sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth a'r oruchwyliaeth gywir, pan fo hynny'n angenrheidiol.

Mae'r rhesymau pam fod plant yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn unigryw i'r unigolyn ond rydym yn gwybod bod rhai ffactorau

a all ddylanwadu ar ymddygiad o'r fath mewn plant. Gallai'r rhain gynnwys profiad y plentyn ei hun o gamdriniaeth neu drawma nas datryswyd, sy'n eu gadael yn teimlo'n ddiwerth amdanynt eu hunain, ac unrhyw anghenion sydd heb eu bodloni neu gredoau am ryw a pherthnasau.

Mae'n bosibl hefyd nad oes gan blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol lawer o wybodaeth gywir am ryw a pherthnasoedd. Maent wedi derbyn negeseuon o agweddau o'u bywydau eu hunain neu wedi cael eu cyflwyno i negeseuon afiach o bornograffi. Gall teimlo'n ddatgysylltiedig neu wedi ynysu oddi wrth eu cyfoedion hefyd gael effaith ar ymddygiad rhywiol niweidiol mewn plant. Gall plant yn eu harddegau yn arbennig, sydd yn ddatgysylltiedig, yn unig neu wedi eu hynysu, fod yn rhy ddihyder i ffurfio a chynnal perthynas barchus, addas i'w hoed. Fodd bynnag, i rai, pan fo'r cyfle'n codi, mae'n bosibl y byddant yn chwilio am gyswllt ac agosatrydd mewn ffyrdd niweidiol gyda'r rhai sy'n ymddangos yn llai bygythiol iddynt.

Wrth lunio cynlluniau adfer y plentyn ei hun, mae'n bwysig deall ac ystyried y cymhlethdod sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol mewn plant a'r holl ffactorau sydd wedi efallai cael effaith ar yr ymddygiad. Mae'n fwy tebygol bod sawl ffactor, sydd eisoes wedi eu crybwyll a rhai eraill sydd ddim, wedi cael effaith ar ymddygiad y plentyn, yn hytrach nag un digwyddiad yn unig. Bydd cefnogi eich plant i gyfathrebu â gweithwyr

proffesiynol er mwyn deall y ffactorau sy'n berthnasol iddynt hwy, yn ogystal â'r teulu cyfan yn bwysig. Byddai sicrhau'r gofal a'r gefnogaeth gywir yn lleihau gryn dipyn y siawns o'r ymddygiad yn cael ei ailadrodd.

Effaith ar yr hunan

Mae gofalu amdanoch eich hun wrth brosesu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn bwysig iawn er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cadw'n iach yn gorfforol ac yn emosiynol. Fel rhiant, efallai y bydd gennych lawer o gwestiynau yr ydych angen atebion iddynt ond nad ydych yn teimlo y gallwch chi siarad amdanynt ag aelodau eraill o'ch teulu. Mae rhieni yn dweud wrthym eu bod yn ofni colli cefnogaeth eu teulu a hefyd yn rhannu pryderon ynghylch stigma a bod ar eu pennau eu hunain pe bai'r wybodaeth yn dod i glyw'r gymuned ehangach.

I rai rhieni mae darganfod ymddygiad rhywiol niweidiol heb y gofal a chefnogaeth ddigonol yn gallu eu harwain at ddioddef ysbeidiau o iechyd meddwl gwael eu hunain. Gall y gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi eich plentyn helpu i sicrhau bod unrhyw anghenion gofal a chefnogaeth adnabyddedig yn cael eu cynnwys ym mhob rhaglen adfer. Mae'n bwysig bod eich anghenion eich hun yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu fel eich bod yn gallu parhau i chwarae rhan allweddol yng ngwyliadwriaeth, goruchwyliaeth ac adferiad eich plentyn.

Gofal, cefnogaeth a diogelwch

Y cam cyntaf wrth gael mynediad at y gofal a'r gefnogaeth gywir ar gyfer eich plentyn ac ar gyfer eich teulu yw derbyn bod eich plentyn wedi ymddwyn mewn ffordd niweidiol tuag at eraill. Yng Nghymru, mae plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael sylw'n gyntaf ac mae gweithwyr proffesiynol yn gwneud ymdrech i gyflwyno'r ymateb sy'n creu'r stigma lleiaf posibl er mwyn sicrhau bod eu hanghenion gofal, cymorth ac amddiffyn nhw ac eraill sy'n ymwneud â'r achos yn cael eu bodloni.

Ni fydd angen ymateb gan y system cyfiawnder troseddol ar y mwyafrif o blant sy'n dod i sylw'r gwasanaethau cymorth oherwydd ymddygiad rhywiol niweidiol er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion sylfaenol sy'n effeithio ar eu hymddygiad. Yn wir, i lawer, gallai ymyriad troseddol gael effaith gydol eu hoes gan leihau'r siawns o wneud y gorau o'u cyfleoedd mewn bywyd. Er bod angen ystyried rôl y system cyfiawnder troseddol, ni ddylai mynediad at wasanaethau ddibynnu ar y plentyn yn cael cyhuddiad troseddol.

Mae canllaw Llywodraeth Cymru yn glir mai adnabod ac ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol ar y cyfle cyntaf posibl mewn dull cymesur yw'r dull y dylai holl ymarferwyr rheng flaen ei fabwysiadu. Pan fo pryderon yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol, dylai ymatebion i blant yng Nghymru ganolbwyntio ar y plentyn

a bod yn holistaidd eu natur yn hytrach na chanolbwyntio ar y broblem yn unig. Dylai anghenion y plentyn sydd wedi arddangos yr ymddygiad rhywiol niweidiol gael eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw berygl sydd wedi codi o ganlyniad i'w ymddygiad a dylid cynnig cefnogaeth gymesur i ateb unrhyw anghenion amlwg.

Symud ymlaen

Er gwaethaf unrhyw anawsterau rydych wedi eu hwynebu fel teulu yn dilyn darganfod ymddygiad rhywiol niweidiol, gyda'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir ni fydd y rhan fwyaf o blant yn ailadrodd yr ymddygiad hwn. Mae'n bwysig eich bod chi a'ch plentyn yn cael eich cefnogi er mwyn symud ymlaen yn eich bywydau ac nad yw eu hymddygiad yn eu diffinio nhw i'r dyfodol.

Mae llawer o blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn mynd ymlaen i brofi llwyddiant ysgubol yn ôl eu gallu, ar ôl derbyn cymorth. Mae derbyn cefnogaeth a dealltwriaeth gyson gan aelodau'r teulu pan fo'r cymorth proffesiynol yn lleihau neu'n dod i ben yn allweddol i unrhyw blentyn gyflawni eu potensial gorau mewn bywyd, a dydy plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol ddim yn wahanol yn hyn o beth.

Mae rhieni'n teimlo'n bryderus wrth i wasanaethau ddod i ben a gall y teimladau ynysig ddod yn ôl yn ystod

y cyfnodau hynny. Bydd cyfathrebu gyda gweithwyr proffesiynol am unrhyw bryderon neu am unrhyw gwestiynau sydd angen eu hateb cyn i gefnogaeth broffesiynol ddod i ben yn eich helpu i ddeall y camau nesaf ar eich cyfer chi a'ch plentyn. Mae bod yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi'i wneud gyda'ch plentyn a theimlo'n hyderus wrth atgyfnerthu negeseuon iach am ymddygiad a pherthnasau rhywiol yn ystod bywyd y plentyn, wir yn eu helpu nhw i symud ymlaen at berthnasau rhywiol iach fel oedolyn yn y dyfodol.



@BarnardosCymru



BarnardosCymru

www.barnardos.org.uk